# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 3 a 10 Awst 2006

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

10 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

11 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

12 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

13 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Catherine Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion prif gyflawniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y portffolio diwylliant, y Gymraeg a chwaraeon yn etholaeth Llanelli er 2003? (WAQ47654)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi nifer o fentrau yn etholaeth Llanelli.

### Y Gymraeg

- Er 2003, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol er mwyn cadw at ein haddewidion yn 'Iaith Pawb' yn llawn,
- Mae Menter Iaith Llanelli yn un o'r saith corff cydradd sy'n cael grant Bwrdd yr Iaith Gymraeg o £ 240,000 i Fenter Iaith Myrddin yn yr ardal
- Mae'r papur bro lleol *Sosban Elli* wedi cael grant o £1,300 y flwyddyn er 2003.

### Cymru Hanesyddol

- Er 2003, mae £100,000 wedi cael ei gynnig ar ffurf grantiau i atgyweirio ac adfer rhoi o adeiladau pwysicaf Cymru.

### Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol

- Mae ardal Llanelli wedi derbyn sawl dyfarniad Sportlot, gwerth dros £500,000 i gyd, i gefnogi prosiectau sydd â'r nod o ddatblygu chwaraeon. Mae'r prosiectau yn cynnwys codi cyfleusterau newid newydd, uwchraddio cyfleusterau criced a chodi llifoleuadau newydd yn ogystal â nifer o ddyfarniadau llai i gefnogi chwaraeon cymunedol.
- Yn ogystal, mae clwb golff newydd wedi cael ei godi ym Machynys. Cafodd y cyfleuster hwn, sydd o'r radd flaenaf, gymorth loteri i sefydlu canolfan ragoriaeth ranbarthol i helpu i ddenu rhagor o bobl ifanc i'r gêm. Mae'r clwb eisoes wedi croesawu digwyddiadau golff rhyngwladol o fri, sy'n help i godi proffil golff yng Nghymru mewn paratoad ar gyfer Cwpan Ryder yn 2010.
- Lansiwyd y cynllun nofio am ddim i bobl dros 60 oed gan Jane Davidson AC, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yng nghanolfan hamdden Caerfyrddin yn Nhre Ioan ar 8 Tachwedd 2004. Ei nod yw annog pobl hŷn yn sir Gaerfyrddin i gadw'n ffit a gwneud ffrindiau newydd. Mae pob un o'r pum pwll nofio yn sir Gaerfyrddin sy'n eiddo i'r awdurdod lleol yn cymryd rhan yn y cynllun: canolfan hamdden Llanelli, canolfan hamdden Caerfyrddin, canolfan hamdden Cwm Aman, pwll Llanymddyfri a phwll Castellnewydd Emlyn.

### Diwylliant

- Mae CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru wedi dyfarnu'r grantiau canlynol i brosiectau yn ardal Llanelli:
  - Cafodd gwaith cadwraeth ar Amgueddfa ac Oriel Gelf Parc Howard (storio gweithiau wedi'u fframio a datblygu lle arddangos) £8,500 yn 2005-06 ac mae dyraniad grant o £10,000 wedi ei neilltuo eleni i ddatblygu oriel i Lanelli gynnar.
  - Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli. Dros y blynyddoedd rhwng 2004-05 a 2005-06, cafodd yr amgueddfa £11,900 o gymorth i ailgodi hen adeilad y castell, cam dau, a gwneud gwaith adeiladu newydd, cam 2/3, i wella'r ffordd fynediad a phrynu craen disel. Mae dyraniad grant o £10,000 wedi cael ei neilltuo eleni ar gyfer y gwaith adeiladu newydd, datblygiad cam 4.
  - Cafodd gwasanaethau llyfrgell sir Gaerfyrddin £40,000 yn 2004-05 i ddatblygu cyfleusterau i bobl ifanc yn eu harddegau a gwell cyfleusterau TGCh ar y gwasanaethau llyfrgell symudol.

- Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, a gyllidir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, wedi dyfarnu bron i £590,000 mewn grantiau i sefydliadau a chynlluniau yn ardal Llanelli er 2003
- Mae Amgueddfa Cymru—National Museum Wales wedi rhoi nifer o fenthyciadau i ardal Llanelli. Mae'r rhain yn cynnwys sawl crair o gasgliad diwydiannol Amgueddfa Cymru i barc gwledig Pembre, llyfrau i lyfrgell Llanelli a nifer o fenthyciadau i Ganolfan Dreftadaeth Cydweli.

- Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau hefyd yn gobeithio datblygu prosiectau allgymorth yn Llanelli drwy Fairbridge. Wedi'i seilio mewn 15 o'r ardaloedd trefol mwyaf difreintiedig yn y wlad, mae Fairbridge yn cefnogi pobl ifanc 13 i 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu rai y nodwyd pob perygl iddynt ymwrthod â'r cyfundrefnau hynny.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Nick Bourne:** Faint wariodd adran y Gweinidog ar letygarwch yn ystod y 12 mis diwethaf, ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion y gwariant hwn? (WAQ47598)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.***

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Yn yr ateb i WAQ47598, ymrwymais i ysgrifennu atoch am y gwariant ar letygarwch yn fy adran.

Gan gymryd y cyfnod rhwng mis Mehefin 2005 a mis Mehefin 2006, yr oedd y gwariant yn yr hen Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ac ym mhortffolio'r Adran gyfredol dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau—gan gynnwys gwariant gan Awdurdod Datblygu Cymru/Bwrdd Croeso Cymru gynt ar ôl uno'r CCNC—oddeutu £102,697. Credaf ei bod yn bwysig nodi yr hyn yr oedd y gwariant hwn yn sylfaen iddo, a pha ganlyniadau a ddeilliodd o'r buddsoddiad. Er enghraifft:

- y cinio a gynhaliwyd, gyda mi a'r Prif Weinidog yn westeiwyr, i Syr Howard Stringer a'i uwch gydweithwyr o Sony. Er bod y prosiect eisoes ar ei ffordd i Gymru, yr oedd cael Gweinidogion yn westeiwyr y cinio yn hyrwyddo perthnasoedd gwaith agosach a gwell dealltwriaeth o gynlluniau'r cwmni ar gyfer y dyfodol.
- Rhywfaint o letygarwch a roddwyd i Grŵp Quinn o Iwerddon lle sicrhawyd 460 o swyddi newydd /£133 miliwn o fuddsoddiad i Gasnewydd wedi hynny.
- Yr ymweliad â Chymru gan lysgennad Prydain yng Ngweriniaeth Iwerddon. Ymweliad a'n galluogodd i archwilio sut y gallai'r llysgenhadaeth ein helpu yn ein hymdrechion yng Nghwpan Ryder ym mis Medi eleni ac a ddatblygodd gysylltiadau agosach hefyd o safbwynt masnach a mewnfuddsoddi.
- Daeth LINK Financial i Rali Cymru Prydain Fawr yn 2004. Yn 2005 sicrhaom brosiect gan y cwmni a greodd 210 o swyddi newydd ac a ddiogelodd 50 o swyddi a oedd yn bodoli eisoes yng Nghaerffili.
- Cinio Accelerate Cymru a gynhaliwyd ym mis Mawrth eleni, wedi'i gyd ariannu gan Fforwm Modurol Cymru a rhaglen Accelerate Cymru. Dathlai'r digwyddiad lwyddiant y sector modurol yng Nghymru gyda gwobrau i'r cwmnïau gorau yn eu dosbarth. Daeth 121 o bobl o 44 o gwmnïau i'r digwyddiad, ac yr oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdod Datblygu Cymru, Llywodraeth y Cynulliad, yr Adran Drafnidiaeth a Diwydiant, a'r undebau llafur, ynghyd â phrynwyr allweddol o Land Rover a Jaguar.
- Dros 200 o ymweliadau â Chymru i hyrwyddo Cymru o safbwynt mewnfuddsoddi a masnach—ymweliadau a oedd yn allweddol yn y gwaith cyffredinol o hyrwyddo Cymru ar y llwyfan mewnfuddsoddi a masnachu rhyngwladol.

Yr hyn nad yw'r ffigur uchod yn ei gynnwys yw gwariant gan yr Awdurdod Datblygu a'r Bwrdd Croeso gynt yn y cyfnod cyn yr uno. Fel y byddwch yn deall, byddai elfennau o'r gwariant ar letygarwch yn y naill sefydliad a'r llall wedi cael eu cyfuno â'u gweithgareddau marchnata ehangach. Er enghraifft, nawdd i Bencampwriaeth Agored Cymru, ein gweithgareddau i hyrwyddo Cwpan Ryder, Pencampwriaethau BMW a'r Speedway Grand Prix a Chwpan Heineken lle buom yn croesawu uwch newyddiadurwyr o Ffrainc i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan wyliau.

Yng ngoleuni'r uchod, yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod darparu lletygarwch priodol yn rhan annatod o'n hymdrechion i hyrwyddo Cymru, a phopeth sydd ganddi i'w gynnig. Yr wyf, fodd bynnag,

yn credu bod yn rhaid i wariant o'r fath fod yn briodol ac yr wyf yn benderfynol o sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau am wariant o'r fath o'r pwrs cyhoeddus. Yr wyf wedi gwneud hyn yn glir i gyfarwyddwr fy adran a'i uwch dîm rheoli. Lle mae a wnelo'r gwariant hwn, fodd bynnag, â chysylltiadau sy'n parhau â phartneriaid buddsoddi a masnachu posibl, byddwch yn gwerthfawrogi nad oes modd dadlennu hyn am resymau masnachol. Fodd bynnag, fel mater o egwyddor, byddwn yn fwy na hapus i roi adroddiad am y gwariant ar letygarwch i'r Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Yr wyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Christine Gwyther AC, fel Cadeirydd y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau, ar sail yr awgrym hwn, ac at Alun Cairns AC, oherwydd ei ddiddordeb yn y mater.

**Catherine Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion prif gyflawniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y portffolio menter, arloesi a rhwydweithiau yn etholaeth Llanelli er 2003? (WAQ47653)

**Andrew Davies**. Mae 'Cymru: Economi yn Ffynnu' yn nodi ein gweledigaeth economaidd. Mae Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau Llywodraeth y Cynulliad (AMARh) yn cefnogi amryw o brosiectau ledled ardal Llanelli, rhai mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Ymysg yr uchafbwyntiau penodol mae Glan y Dŵr, Llanelli, cwrs golff Machynys, Parc Bwyd Gorllewin Cross Hands a'r Technium Peirianneg yn Nafen. Mae'r Technium yn cael ei anelu at gwmnïau sy'n gweithio yn y diwydiannau modurol, awyrofod a chwaraeon moduro ac mae ganddo gysylltiadau cryf ag Ysgol Beirianneg Prifysgol Cymru, Abertawe, Cyfadran Peirianneg ac Adeiladu Coleg Sir Gâr a thrac rasio Clwb Rasio Ceir Prydain ym Mhen-bre.

Mae AMARh, drwy grantiau cymorth rhanbarthol dewisol, wedi cynorthwyo prosiectau buddsoddi gan gwmnïau lleol yn cynnwys Dyfed Steels Ltd, Cymru Metals a Shufflebottom Ltd.

Mae Dawn Meats (UK) Ltd, ar y parc bwyd, wedi codi cyfleuster prosesu bwyd er 2003 sy'n cyflogi hyd at 700 o bobl ar y cyfnodau prysuraf. Mae Castell Howell Foods yn codi uned ddosbarthu newydd yn Cross Hands a fydd yn cyflogi tua 220 o staff erbyn 2009.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal cynlluniau galw'r gyrrwr yn gwasanaethu Pen-bre/Porth Tywyn, Cydweli, Caerfyrddin a Llanelli, ac mae tri ohonynt yn cael eu hariannu'n gyfan gwbl gan fy adran drwy'r grant gwasanaethau trafnidiaeth leol. Mae gwasanaeth Llanelli yn cael grant gwasanaethau trafnidiaeth leol o 75 y cant a 25 y cant gan yr awdurdod.

Mae AMARh, drwy gyllid UE, wedi helpu gyda'r gwaith o adeiladu ffordd cyswllt Morfa Cross i Berwick Park ac mae ffordd ddosbarthu ddeheuol Porth Tywyn wedi agor llwybr at dir datblygu allweddol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Catherine Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion prif gyflawniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y portffolio addysg a dysgu gydol oes yn etholaeth Llanelli er 2003? (WAQ47651)

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Er 2003, bu datblygiadau cyffrous ym maes addysg, dysgu gydol oes a sgiliau yn etholaeth Llanelli ac yn wir yn Sir Gaerfyrddin gyfan. Maent yn cynnwys:

### Gweithio gyda phartneriaid

Yr ydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i'n galluogi i symud ein strategaeth dymor hir i Gymru ymlaen. Yr ydym yn gweithio gydag ystod eang o gyrff statudol a gwirfoddol i gyflwyno dysgu. Ymysg y prif bartneriaid yn etholaeth Llanelli mae Cyngor Sir Caerfyrddin, Coleg Sir Gâr, partneriaeth

'Ymgeisio yn Uwch' de-orllewin Cymru, Cymdeithas Ieuenctid a Phlant Sir Gaerfyrddin a Grŵp 'Foothold'.

Mae rhaglenni a chynlluniau arbennig yn ychwanegol wrth gwrs at gyllido darpariaeth addysg o'r setliad refeniw a chânt eu targedu at wahanol agweddau ar wella'r canlyniadau i ddysgwyr.

**Brecwast ysgol**
Mae brecwast ysgol yn un o'n 10 prif ymrwymiad yn 'Cymru: Gwlad Well'. Ar hyn o bryd mae 12 o ysgolion yn etholaeth Llanelli yn cymryd rhan yn y fenter brecwast ysgol am ddim i ysgolion cynradd. Mae 13 arall wedi ymrwymo i ddechrau yn ystod tymor yr hydref 2006 ac mae pump arall i fod i ddechrau yn nhymor y gwanwyn 2007.

**Adeiladau ysgolion**
Eto, fel un o'n 10 prif ymrwymiad, o dan y rhaglen grant gwella adeiladau ysgolion, mae Sir Gaerfyrddin wedi cael £13.368 miliwn er 2003-04 i uwchraddio adeiladau ysgolion.

Y prosiectau yn etholaeth Llanelli sydd wedi cael cyllid er 2004 yw:

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Coedcae (adnewyddu'r gampfa) | 2005-06 | £69k |
| Ysgol Gynradd Bryn (adeilad ysgol newydd) | 2005-06 | £305,220 |
| | 2006-07 | £1,500,000 |
| Ysgol Brynteg (adeilad ysgol newydd) | 2005-06 | £465,442 |
| | 2006-07 | £750,000 |

**Cymorth**
Mae llawer o blant a phobl ifanc ddifreintiedig a'u teuluoedd yn cael eu cyrraedd ledled Sir Gaerfyrddin drwy gynllun grant Cymorth. Mae cyllid Sir Gaerfyrddin yn 2006-07 yn £2,772,635 wedi'i ddyrannu drwy 48 o brosiectau unigol. Yr ydym yn hyderus fod y prosiectau hyn yn gwneud gwaith rhagorol a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan deuluoedd.

Mae cyllid wedi cael ei ddarparu ar y cyd â'r Gronfa Loteri Fawr i helpu i greu canolfan integredig i blant ar safle'r ysgol babanod a'r ysgol gynradd yn Llwynhendy. Mae'r ganolfan i fod i agor yn hwyr yn 2006.

**Cronfa Ysgolion Gwell**
Mae ystod eang o addysg a hyfforddiant mewn swydd (HMS) a chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu ar draws yr amrediad llawn o flaenoriaethau wedi cael ei darparu drwy'r Gronfa Ysgolion Gwell.

Mae'r gronfa wedi galluogi awdurdod addysg lleol Sir Gaerfyrddin i hwyluso rhaglen HMS sy'n seiliedig ar egwyddorion 'Iaith Pawb' a chynllun iaith Gymraeg yr AALl. Mae cyllid wedi caniatáu i arferion da gael eu lledaenu o ran addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac adlewyrchir hyn yn safonau cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

**Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig**
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu £5.1 miliwn i 22 AALl i sefydlu prosiectau peilot ysgolion arbennig, Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig, dros dair blynedd, o fis Medi 2006.

Fel rhan o'r strategaeth ehangach i godi safonau i grwpiau difreintiedig, nod y peilot ategol hwn yw hyrwyddo cynhwysiant ymhellach a datblygu rôl ysgolion arbennig drwy ganfod a lledaenu arferion da o ran datblygu cysylltiadau ymarferol ag ysgolion prif ffrwd a hybu cyfraniad ysgolion arbennig i gyfundrefn addysg sy'n dod yn fwy a mwy cynhwysol. Dyrannwyd £292,373 i AALl Sir Gaerfyrddin dros dair blynedd i gefnogi prosiectau peilot.

**Gwasanaethau Lleferydd ac Iaith**

Yn 2003, cwblhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru archwiliad o'r gwasanaethau lleferydd ac iaith i blant a phobl ifanc 0-19 oed. Mae ymchwil yn amlygu fel yr oedd y cynnydd yn y galw wedi dwysáu'r pwysau ar ddarparwyr gwasanaethau a chomisiynwyr gwasanaethau o ran cyflenwi therapi lleferydd ac iaith. Mae wedi dod yn amlwg, yn ychwanegol at y prinder therapyddion i ateb y galw cynyddol, nad oes dull cydlynol ychwaith i ymdrin â chyflenwi gwasanaethau ar lefel leol ar draws yr asiantaethau statudol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penodi cyd-drefnydd lleferydd ac iaith i sefydlu prosiectau peilot yn gweithio ar draws iechyd ac addysg. Bydd y rhain yn datblygu trefniadau comisiynu ar y cyd ynghyd â chronni cyllidebau er mwyn cyflenwi gwasanaethau lleferydd ac iaith i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod timau asesu ac ymyrryd ar y cyd yn gweithredu'n briodol ar draws iechyd ac addysg a, lle bo hynny'n bosibl, bod ymyriadau'n cael eu darparu yn yr ysgol. Mae cyfanswm o £3 miliwn wedi ei ymrwymo dros y tair blynedd nesaf i'r prosiect hwn. Yn ddiweddar gwahoddodd y swyddogion geisiadau gan AALlau, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau iechyd i ymuno â cham 2 y prosiectau peilot. Bu Sir Gaerfyrddin yn llwyddiannus gyda'i chais.

**Rhagori**
Bydd 24 o ysgolion yn etholaeth Llanelli yn elwa o gyllid newydd ac ychwanegol o dan y rhaglen codi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigolion yng Nghymru. Bydd cyfanswm o bron i £0.5 miliwn yn cael ei rannu gan yr ysgolion cymwys, gan eu galluogi i gyflwyno prosiectau newydd i fynd i'r afael â'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyraeddiadau isel ymysg disgyblion. Hysbyswyd 20 o ysgolion cynradd, tair ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig o'u dyraniadau o dan y rhaglen.

Rhaglen newydd yw Rhagori sy'n cael ei phennaf chyllido gydag arian newydd sy'n dod i Gymru o ganlyniad i ddatganiad cyllideb y Canghellor yn gynharach eleni. Bydd yr ysgolion y dyfarnwyd cyllid iddynt yn ei gael am ddwy flynedd. Mae ysgolion sydd â thros 50 o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol gyda mwy nag 20 y cant ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael dyraniadau o dan y rhaglen.

**Cwricwlwm ac Asesu**
Yng ngwanwyn/haf 2006, cynhaliwyd cam peilot cyntaf gwaith newydd i gynorthwyo a sicrhau asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 3. Daw hyn ar ôl i'r profion cyfnod allweddol statudol ddod i ben. Yr oedd y peilot eleni yn cynnwys rhyw 130 o ysgolion ar draws Cymru, yn cynnwys pedair o Lanelli. Bydd y peilot yn sail i waith pellach ar gryfhau asesiadau athrawon.

Yn ogystal, mae un ysgol uwchradd a'r saith ysgol gynradd sy'n ei bwydo yn cymryd rhan mewn gweithgor asesiadau athrawon traws gyfnod. Gan weithio yng nghyd-destun addysgu a dysgu gwyddoniaeth, mae'r grŵp clwstwr ysgolion hwn yn canolbwyntio ar gymorth i ddatblygu asesiadau dysgu.

Y canlyniadau disgwyliedig yw:
- datblygu cysylltiadau rhwng asesiadau cyfunol a ffurfiannol gan athrawon;
- datblygu strategaethau i ymgorffori asesiadau dysgu mewn asesiadau athrawon; ac
- arweiniad gwaith i athrawon.

Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r canran o blant saith oed yn Llanelli sy'n cyrraedd y dangosydd pynciau craidd wedi codi 2 bwynt canran er 2003, ac erbyn hyn mae 2 bwynt canran islaw cyfartaledd Cymru gyfan.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r perfformiad wedi codi eto yn Llanelli dros y tair blynedd ddiwethaf. Erbyn hyn mae cyfanswm o 73 y cant o blant 11 oed wedi cyrraedd y dangosydd pynciau craidd, dim ond 1 y cant islaw cyfartaledd Cymru gyfan.

Cyrhaeddodd cyfanswm o 64 y cant o ddisgyblion 14 oed yn Llanelli y dangosydd pynciau craidd ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, cynnydd o 14 pwynt canran er 2003 ac erbyn hyn mae 6 phwynt canran uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan.*

**Cymwysterau**
Mae'r perfformiad TGAU wedi gostwng er 2003. Enillodd cyfanswm o 46 y cant o ddisgyblion 15 oed o leiaf bum TGAU graddau A* i C, sydd 6 phwynt canran islaw cyfartaledd Cymru gyfan.*

Mae'r ganran o fyfyrwyr 17 oed sy'n sefyll dau neu fwy o bynciau Safon Uwch ac yn ennill o leiaf ddwy radd A i C wedi codi 5 pwynt canran er 2003, i 81 y cant, sydd 13 pwynt canran uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan.

***** Dim ond 5 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig sydd yn etholaeth Cynulliad Llanelli. Mae ffigurau cyfun wedi'u seilio ar nifer fach o ysgolion yn fwy tebygol o ddangos newidiadau mawr o flwyddyn i flwyddyn, fel y dangosir gan y newidiadau er 2003 yng nghanlyniadau cyfnod allweddol 3 a TGAU.

**Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion**
Ynghyd â Chyngor Chwaraeon Cymru yr ydym yn gweithio gyda phob awdurdod lleol i wella'r cyfleoedd ar gyfer addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion a chyflwyno arferion da. Ers i'r fenter ddechrau yn 2002, mae pum canolfan datblygu addysg gorfforol a chwaraeon wedi cael eu sefydlu yn Sir Gaerfyrddin i adeiladu ar yr arferion da presennol ac ehangu ansawdd ac ystod y cyfleoedd AG a chwaraeon i bobl ifanc yn yr ardal. Mae'r tair canolfan ddatblygu sy'n bodoli ar hyn o bryd wedi'u lleoli ym Mryngwyn, Coedcae, a Dyffryn Taf ac mae 14 o ysgolion cynradd lleol yn gysylltiedig â hwy. Mae ysgolion y canolfannau datblygu ymysg y rhai sy'n elwa drwy gael cyllid o dan raglen y Gronfa Loteri Fawr i wella'r cyfleusterau ar gyfer AG a chwaraeon mewn ysgolion. Mae pum miliwn o bunnoedd wedi ei ddarparu hyd yma ar gyfer addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion a chytunwyd ar £1.9 miliwn pellach ar gyfer y flwyddyn hon. Mae o leiaf ddwy ganolfan ddatblygu newydd i fod i gael eu sefydlu yn sir Gaerfyrddin yn ystod 2006-07, a bydd un o leiaf o'r rheini yn ardal Llanelli.

**Ieithoedd Tramor Modern**
Er 2003, mae cyllid wedi cael ei ddarparu i AALl Sir Gaerfyrddin gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, dan arweiniad y Ganolfan Wybodaeth ac Ymchwil ar Ddysgu Ieithoedd (CILT) yng Nghymru, i roi rhaglen beilot dair blynedd ar waith i gyflwyno dysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd. Mae'r prosiect yn rhan o strategaeth 'Ieithoedd sy'n Cyfrif' i gynyddu cyfranogiad mewn dysgu ieithoedd ledled Cymru. Mae nifer o ysgolion yn sir Gaerfyrddin yn cymryd rhan yn y peilot hwn ac mae cyllid wedi cael ei gadarnhau'n ddiweddar ar gyfer cam 2 y prosiect, gan ymestyn y gwaith tan fis Gorffennaf 2008.

**Cymhwyster Bagloriaeth Cymru**
Yr oedd Coleg Sir Gâr, sy'n cynnwys campws Graig, Llanelli, yn un o'r garfan gyntaf ym mheilot y Fagloriaeth ac mae wedi cymryd rhan er mis Medi 2003. Yn ystod dwy flynedd gyntaf y peilot, enillodd 51 o'r 84 o fyfyrwyr a ymgeisiodd y diploma canolraddol. Mae 47 o fyfyrwyr yn ymgeisio am y dyfarniad yr haf hwn ac mae 38 ohonynt yn astudio yn Llanelli. Disgwylir i 120 yn rhagor o fyfyrwyr ddechrau ar y fagloriaeth ganolraddol ac 20 ar y fagloriaeth uwch ym mis Medi.

**Llwybrau Dysgu 14-19**
Mae rhwydwaith 14-19 sir Gaerfyrddin yn gweithio'n ddiwyd ar ddatblygiadau llwybrau dysgu ac mae'n gyfrifol am sicrhau ystod o raglenni a chymorth sy'n angenrheidiol i wneud yn siŵr fod dysgwyr yn gallu cyrchu at bob elfen o'r llwybrau dysgu 14-19. Yn 2004-05, yr oedd £50,000 ar gael i gefnogi gweithgareddau llwybrau dysgu 14-19 yn sir Gaerfyrddin. Yn 2005-06 mae hyn wedi codi i £120,000, gan gynnwys cyfran o'r cyllid prosiect llwybrau dysgu 14-19 Amcan 3—cynllun a fydd yn rhedeg am ddwy flynedd o fis Mehefin 2005. Mae'r cyllid llwybrau dysgu yn helpu'r rhwydwaith i fwrw ymlaen â gweithgareddau sy'n cynnal chwe elfen allweddol y llwybrau dysgu—llwybrau dysgu sy'n cael eu teilwrio'n unigol, dewis ehangach a hyblygrwydd, craidd dysgu, hawl i gymorth gan anogwr dysgu, cymorth personol a chyngor a chyfarwyddyd gyrfaol. Fel rhan o'r ddewislen opsiynau, mae clwstwr 14-19 Llanelli wedi sefydlu pedwar llwybr galwedigaethol newydd gyda 60 o bobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt. Yn 2006-07, mae cyfanswm o £194,180 ar gael i'r rhwydwaith i gynorthwyo datblygiad y gwaith ym meysydd y rhwydwaith 14-19 o ran symud y llwybrau dysgu yn eu blaenau. Mae hyn yn

cynnwys amryw o weithgareddau mewn cydweithrediad ag ysgolion a cholegau Llanelli a fwriadwyd i ehangu'r dewis a'r hyblygrwydd sydd ar gael i bobl ifanc.

**Peilot Gweithwyr sy'n Dysgu**
Dewiswyd Llanelli ar gyfer peilot gweithwyr sy'n dysgu Llywodraeth Cynulliad Cymru a oedd yn gweithredu rhwng mis Medi 2002 a mis Mawrth 2005, gan ddarparu dysgu am ddim hyd at lefel 3 i bawb a oedd yn gyflogedig yn yr ardal. Bu'r prosiect yn llwyddiannus iawn gan gefnogi hyfforddiant i 1,800 o weithwyr mewn 300 o sefydliadau ledled yr ardal. Yr oedd y prosiect yn ddylanwadol iawn o safbwynt dylunio'r rhaglen datblygu'r gweithlu sydd ar gael i fusnesau ledled Cymru erbyn hyn.

**Sgiliau Sylfaenol**
Cyllidodd strategaeth sgiliau sylfaenol cronfa her dysgu ELWa 14 o gyrsiau i 122 o bobl yn Llanelli rhwng mis Ebrill 2004 a mis Mawrth 2006. Yr oedd y rhain yn cynnwys cyflwyno sgiliau sylfaenol, bwyta'n iach, magu plant a dosbarthiadau Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill ar gyfer teuluoedd gweithwyr mudol.

**Rhwydwaith Dysgu**
Erbyn diwedd mis Awst 2006, bydd prosiect rhwydwaith dysgu sir Gaerfyrddin sy'n cael ei noddi gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru drwy gronfa gymdeithasol Ewrop (prosiect dysgu cymunedol yn gweithio gyda'r rheini sydd wedi bod allan o addysg a hyfforddiant am beth amser) wedi darparu 60 o gyrsiau i 550 o ddysgwyr yn ardal Llanelli. Mae'r cyrsiau'n cynnwys ymddygiad rhieni, magu plant, technoleg gwybodaeth a choginio/hylendid bwyd. Datblygwyd llawer o'r ddarpariaeth hon mewn partneriaeth â grwpiau allweddol yn y sector gwirfoddol gan gynnwys Cymdeithas Plant ac Ieuenctid Sir Gaerfyrddin, YWCA, canolfan St Paul's i deuluoedd a wardiau Cymunedau yn Gyntaf Glanymôr a Thy-isha. Yn ddiweddar bu'r prosiect yn destun archwiliad Erthygl 4 gan WEFO a dynodwyd dogfennau'r prosiect yn esiamplau o'r arferion gorau mewn gwaith prosiect Ewropeaidd.

**Y Gronfa Buddsoddi ar y Cyd**
Yn 2005-06, cafodd nifer o brosiectau eu cyllido gan y gronfa yn yr ardal:

- Cafodd prosiect ar y cyd rhwng yr AALl a Choleg Sir Gâr £40,000 i hyrwyddo dwyieithrwydd
- Cafodd prosiect ar y cyd rhwng yr AALl a Choleg Sir Gâr £18,000, gan ddarparu cymorth ychwanegol i'r rhai y mae'r perygl mwyaf iddynt ymwrthod ag addysg
- Cafodd Canolfan Hyfforddiant a Thechnoleg Sir Gaerfyrddin a naw o glybiau ffermwyr ifanc £10,000 i'w cynorthwyo i achredu gweithgareddau ehangach. Hyd yma mae 23 o bobl ifanc yn ymwneud â'r prosiect, yn gweithio tuag at sgiliau allweddol cyfathrebu lefel 2 ar sail gweithgareddau gwirfoddol gan aelodau CFfI (dadlau, cyflwyniadau a llunio portffolios unigol). Ymgymerir â'r gweithgareddau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Dysgu Seiliedig ar Waith**
Nod dysgu seiliedig ar waith yw darparu sgiliau a gwybodaeth sy'n seiliedig ar gymwyseddau sy'n ddigon eang, amrywiol a hyblyg i ateb gofynion pobl mewn cyflogaeth, i'w gwneud yn fwy cyflogadwy ac i roi dilyniant gyrfaol iddynt. Yn ogystal, gall roi i gyfranogwyr nad ydynt mewn cyflogaeth y cyfle i fagu'r sgiliau a'r profiad gwaith priodol i wella eu cyflogadwyedd ac i roi i gyflogwyr weithlu sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt i gystadlu yn yr economi fyd-eang. Mae'r tabl isod yn darparu gwybodaeth am etholaeth Llanelli:

**Niferoedd a allai gael eu cyllido a ddechreuodd ar raglenni dysgu seiliedig ar waith yn etholaeth Llanelli yn ôl y rhaglen dysgu seiliedig ar waith, 2004-05 (blwyddyn academaidd)**

| *Rhaglen dysgu seiliedig ar waith* | *Niferoedd ar raglen ddysgu* |
|---|---|
| Prentisiaeth fodern sylfaenol | 385 |
| Dysgu paratoadol (ieuenctid) | 372 |
| Prentisiaeth fodern | 212 |
| Dysgu paratoadol (oedolion) | 127 |
| Dysgu sgiliau (oedolion) | 112 |

| | |
|---|---|
| Dysgu sgiliau (ieuenctid) | 36 |
| Diploma sgiliau modern | 24 |
| **Cyfanswm** | **1,268** |

**Nodiadau**

**Ffynhonnell** Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, ar 2 Mawrth 2006

1. Mae’r tabl yn cyfrif y niferoedd a ddechreuodd ar raglenni dysgu seiliedig ar waith
2. Defnyddiwyd cod post y dysgwr i nodi’r ardal breswylio ar ddechrau pob rhaglen ddysgu

**Dysgu yn y Gymuned**

Ymysg y darparwyr dysgu cymunedol mawr sy’n cyflwyno cyrsiau dysgu yn y gymuned yn ardal Llanelli ar hyn o bryd mae Coleg Sir Gâr, Cyngor Sir Caerfyrddin, prifysgol Abertawe, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr a’r Consortiwm Cymraeg i Oedolion. Mae grwpiau gwirfoddol, gan gynnwys Prifysgol y Drydedd Oes, Barnardo’s, Foothold a YWCA, hefyd yn darparu ac yn hybu gwahanol fathau o ddysgu cymunedol. Mae’r cyrff a’r grwpiau hyn wedi dechrau gweithio mewn partneriaeth drwy fforymau dysgu cymunedol Llanelli, drwy gymryd rhan ym mhrosiect rhwydwaith dysgu sir Gaerfyrddin a thrwy waith is-grŵp ôl-16 Consortiwm Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant Sir Gaerfyrddin. Bydd yr LCLP yn bwrw ymlaen ymhellach â’r gwaith hwn drwy ganfod a diwallu anghenion lleol yn well, cynyddu cyfranogiad y bobl hynny sy’n anweithgar yn economaidd, annog dilyniant i fathau eraill o ddysgu a mynd i’r afael ag amddifadedd. Caiff y nodau hyn eu cyflawni drwy weithio mewn partneriaeth, datblygu capasiti, hyrwyddo cyfranogiad, ehangu’r ddarpariaeth a sicrhau bod y cyrsiau a gynigir o ansawdd dda.

**Addysg Uwch**

Mae ehangu mynediad yn flaenoriaeth allweddol yn fy strategaeth i addysg uwch yng Nghymru, ‘Ymgeisio yn Uwch’, ac mae sefydliadau AU Cymru yn perfformio’n well na chyfartaleddau’r DU yn gyson o ran denu cymysgedd cymdeithasol eang o fyfyrwyr, y mae llawer ohonynt yn cael eu tangynrychioli mewn AU. Hyd yma, bu Cymru ar flaen y gad, yn nhermau’r DU, o ran cynyddu cyfranogiad o blith grwpiau sy’n cael eu tangynrychioli. Fel rhan o’r agenda i ehangu mynediad, sefydlwyd pedair partneriaeth ‘Ymestyn yn Ehangach’ yn 2003 i weithio’n benodol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae’r partneriaethau’n ymwneud ag amrywiaeth eang o brosiectau a gynlluniwyd i hyrwyddo addysg uwch i’r rhai nad oes gan eu teuluoedd a’u cymunedau unrhyw draddodiad o fynd i’r brifysgol. Mae partneriaeth ‘Ymestyn yn Ehangach’ y de-orllewin yn cwmpasu Llanelli ac mae’n rhoi amryw o weithgareddau ehangu mynediad ar waith wedi eu hanelu at y myfyrwyr anoddaf i’w cyrraedd o flwyddyn 9 i fyny. Mae’r gweithgareddau’n amrywio o fentora myfyrwyr, diwrnodau Anelu am y Coleg, ysgol haf blwyddyn 10 a diwrnod rhyngwladol Llanelli. Ym mlwyddyn academaidd 2003-04, cofrestrodd 2,430 o fyfyrwyr o etholaeth Llanelli mewn sefydliadau addysg uwch ac yn 2004-05 yr oedd y ffigur hwn wedi codi i 2,530.

**Ann Jones:** Faint o blant yn etholaeth Dyffryn Clwyd a sir Ddinbych sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a sy'n hawlio prydau ysgol am ddim, a hynny fel canran o'r holl blant o oed ysgol? (WAQ47656)

**Jane Davidson:** Mae’r cyfrifiad ysgolion blynyddol yn casglu manylion am ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim (lle maent yn hysbys) ac maent fel a ganlyn:

**Disgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim ym mis Ionawr 2005—pob oedran**

| | Disgyblion | Cyfanswm disgyblion o bob oedran | Cyfanswm y disgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim fel % |
|---|---|---|---|
| Dyffryn Clwyd | 1,623 | 12,196 | 13.3 |
| Sir Ddinbych | 1,945 | 16,793 | 11.6 |

Mae’r ffigurau hyn yn cynnwys pob disgybl mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yn ogystal â’r rheini mewn dosbarthiadau meithrin, derbyn a chweched.

**Disgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim ym mis Ionawr 2005—oedran ysgol statudol**

| | Disgyblion | Cyfanswm disgyblion o oedran ysgol statudol | Cyfanswm y disgyblion o oedran ysgol statudol â hawl i brydau ysgol am ddim fel % |
|---|---|---|---|
| Dyffryn Clwyd | 1,489 | 10,021 | 14.9 |
| Sir Ddinbych | 1,780 | 13,772 | 12.9 |

Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys pob disgybl a anwyd rhwng 1 Medi 1988 a 31 Awst 1999 mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir. Nid yw'r nifer o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim ond nad ydynt yn eu hawlio yn hysbys.

**Ann Jones:** Faint o blant sydd wedi cymryd rhan mewn cynlluniau Cychwyn Cadarn ym mhob etholaeth yng Nghymru ers cyflwyno'r cynllun? (WAQ47658)

**Jane Davidson:** Mae prosiectau Cychwyn Cadarn yn cael eu cyllido o fewn y cynllun grant Cymorth. Mae dros 500 o brosiectau Cymorth ledled Cymru yn 2006-07 sy'n cynnwys manteision i'r grŵp oedran 0-3 oed, gyda buddsoddiad cysylltiol o dros £28 miliwn. Nid yw'r nifer o blant sy'n elwa o'r prosiectau hyn ar gael yn ganolog.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y pwerau sydd gan lywodraeth leol i atal cŵn rhag mynd ar gaeau chwarae cyhoeddus, a hynny er mwyn atal cŵn rhag baeddu caeau o'r fath? (WAQ47647)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Ar hyn o bryd mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwneud is-ddeddfau cŵn o dan y system is-ddeddfau a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972. Gall is-ddeddfau cŵn nodweddiadol gynnwys pob un neu rai o'r canlynol mewn perthynas â thir penodedig:

- gofyniad i gadw ci ar dennyn
- gofyniad i gadw eu ci eu hunain ar dennyn os gorchmynnir hwy i wneud hynny
- gwaharddiad llwyr ar gŵn.

Mae Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996 yn caniatáu i awdurdodau lleol ddynodi ardaloedd lle mae'n drosedd peidio â glanhau ar ôl eich ci.

Bydd pwerau yn Neddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 yn disodli'r system is-ddeddfau cŵn gyfredol gyda phwerau i wneud Gorchmynion rheoli cŵn, a bydd Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996 yn cael ei diddymu. Bydd y system newydd hon, ymysg materion eraill, yn galluogi awdurdodau lleol a chynghorau cymuned i ddelio â baeddu gan gŵn, gwahardd cŵn o ardaloedd dynodedig, mynnu bod cŵn yn cael eu cadw ar dennyn a chyfyngu ar y nifer o gŵn y caiff un person fynd â hwy am dro yr un pryd. Yn unol â'r protocol arferol wrth gyflyno deddfwriaeth newydd, bwriadaf ymgynghori ynghylch y rheoliadau gorchmynion rheoli cŵn i Gymru yn yr hydref.

**Mark Isherwood:** Pa ganllawiau y mae'r Gweinidog yn eu darparu i awdurdodau cynllunio ar faint ystafelloedd gwely? (WAQ47655)

**Carwyn Jones:** Nid yw polisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau cysylltiol yn ymdrin â materion manwl fel maint ystafelloedd gwely. Mater i'r awdurdodau cynllunio lleol roi sylw iddo wrth ddelio â cheisiadau cynllunio yw hwn a gallai fod yn rhan o ganllawiau cynllunio atodol awdurdod. Mae polisi

cynllunio Llywodraeth y Cynulliad ar dai wedi ei gynnwys yn ‘Polisi Cynllunio Cymru’, 2002 (fel y’i diweddarwyd yn ddiweddar gan ddatganiad polisi cynllunio interim y Gweinidog 01/2006 am dai). Mae hwn yn delio â materion strategol fel y ffactorau y mae’n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol eu hystyried wrth gynllunio’r ddarpariaeth o dai newydd. Ychwanegir at hyn drwy gyfres o nodiadau cyngor technegol, gan gynnwys ‘Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy’ (2006), sy’n darparu canllawiau manylach ar y camau sydd i gael eu cymryd gan awdurdodau cynllunio lleol wrth ddarparu tai fforddiadwy drwy’r gyfundrefn gynllunio.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad cynnydd ar ddatblygiad cynllun iawndal o ran halogiad GM? (WAQ47661)

**Carwyn Jones:** Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio barn am nifer o opsiynau i wneud iawn am halogiad GM posibl ar gnydau rhydd o GM fel rhan o’n hymarferiad ymgynghori ynghylch cydfodolaeth GM, y bwriedir ei gynnal yn yr hydref.

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa dystiolaeth y mae'r Gweinidog wedi'i hystyried sy'n dangos bod nifer fawr o achosion o TB mewn gwartheg yn yr ardaloedd hynny lle y nodwyd bod nifer fawr o achosion o TB mewn bywyd gwyllt? (WAQ47662)

**Carwyn Jones:** Ni wyddys ar hyn o bryd faint o achosion o TB sy’n digwydd mewn bywyd gwyllt gan nad ymchwiliwyd i hynny yng Nghymru er 1994. Daeth yr arolwg o foch daear a ganfuwyd yn farw, a sefydlwyd i ganfod pa mor gyffredin yw TB mewn moch daear marw a ganfyddir ar ffyrdd ac ar ffermydd, i ben ddiwedd mis Mai 2005. Mae’r samplau a gasglwyd yn cael eu dadansoddi a bydd y canlyniadau cychwynnol a fydd ar gael yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar 28 Medi.

## Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid

**Ann Jones:** Beth oedd y gymhareb cynghorydd i etholwr yn y 100 (a) ward cyfoethocaf a (b) ward tlotaf yng Nghymru, a hynny ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer? (WAQ47659)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu data am yr ardaloedd cyfoethocaf a thlotaf. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yw’r mesur swyddogol o amddifadedd i ardaloedd bach o Gymru ac fe’i seilir ar saith gwahanol fath o amddifadedd. Gan fod amddifadedd yn gysyniad eang, ni fyddai’n gywir rhestru ardaloedd yn syml yn nhermau’r ardaloedd cyfoethocaf a’r tlotaf ar sail y mynegai hwn. Hefyd, nid yw daearyddiaeth Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005 yn rhannu’r un ffiniau â’r adrannau etholiadol presennol.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar wefan y Cynulliad:
http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/40382313/403824/wimd-2005/wimd2005-guide-e.pdf?lang=en

Mae manylion y gymhareb cynghorydd/etholwr am adrannau etholiadol Cymru yn cael eu dal gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Mae’r manylion ar ei wefan: http://www.lgbc-wales.gov.uk/electoral_reviews_c.htm

**Ann Jones:** Faint o gyllid a roddwyd i bob awdurdod lleol y pen yn y setliad cyllid llywodraeth leol, a hynny bob blwyddyn er 1999? (WAQ47660)

**Sue Essex:** Y wybodaeth a ddarperir yn y tabl isod yw'r swm o gyllid y pen a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy'r setliad llywodraeth leol er 1999. Cyllid nad yw wedi ei neilltuo yw hwn ac mae'n cynnwys y grant cynnal refeniw, incwm o'r trethi annomestig wedi'i ailddosbarthu ac, am y blynyddoedd perthnasol, grantiau amddifadedd, cymell perfformiad, gostyngiad yn y dreth gyngor a grantiau trosiannol.

**Cymorth canolog Llywodraeth Cynulliad Cymru y pen fesul awdurdod unedol, 1999-2000 hyd at 2006-07 (a)**

| | | | | | | | £ per head | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1999-2000 | 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 | 2004-05 | 2005-06 | 2006-07 |
| Ynys Môn | 876 | 919 | 1,013 | 1,064 | 1,128 | 1,136 | 1,179 | 1,267 |
| Gwynedd | 865 | 912 | 993 | 1,046 | 1,154 | 1,178 | 1,219 | 1,310 |
| Conwy | 794 | 823 | 886 | 950 | 1,060 | 1,099 | 1,113 | 1,187 |
| Sir Ddinbych | 875 | 920 | 981 | 1,033 | 1,118 | 1,142 | 1,179 | 1,259 |
| Sir y Fflint | 791 | 819 | 853 | 882 | 954 | 977 | 1,030 | 1,097 |
| Wrecsam | 773 | 806 | 849 | 901 | 965 | 983 | 1,030 | 1,083 |
| Powys | 898 | 927 | 973 | 1,007 | 1,102 | 1,122 | 1,177 | 1,265 |
| Ceredigion | 856 | 907 | 961 | 988 | 1,034 | 1,052 | 1,092 | 1,154 |
| Sir Benfro | 864 | 901 | 980 | 1,014 | 1,125 | 1,140 | 1,171 | 1,241 |
| Sir Gaerfyrddin | 866 | 910 | 967 | 1,008 | 1,080 | 1,103 | 1,169 | 1,237 |
| Abertawe | 800 | 833 | 884 | 941 | 1,051 | 1,055 | 1,113 | 1,190 |
| Castell-nedd Port Talbot | 861 | 901 | 946 | 1,006 | 1,132 | 1,141 | 1,218 | 1,311 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 815 | 853 | 890 | 918 | 1,025 | 1,039 | 1,106 | 1,182 |
| Bro Morgannwg | 767 | 789 | 826 | 857 | 959 | 961 | 1,012 | 1,063 |
| Rhondda Cynon Taf | 882 | 927 | 980 | 1,014 | 1,157 | 1,177 | 1,255 | 1,348 |
| Merthyr Tudful | 988 | 1,040 | 1,102 | 1,140 | 1,247 | 1,255 | 1,323 | 1,421 |
| Caerffili | 850 | 900 | 959 | 1,011 | 1,129 | 1,166 | 1,226 | 1,310 |
| Blaenau Gwent | 938 | 991 | 1,038 | 1,099 | 1,204 | 1,238 | 1,344 | 1,446 |
| Tor-faen | 868 | 921 | 981 | 1,025 | 1,108 | 1,133 | 1,217 | 1,306 |
| Sir Fynwy | 707 | 733 | 760 | 783 | 875 | 881 | 932 | 998 |
| Casnewydd | 823 | 858 | 922 | 964 | 1,069 | 1,128 | 1,155 | 1,243 |
| Caerdydd | 772 | 800 | 831 | 872 | 1,003 | 994 | 1,023 | 1,077 |
| Cymru | 833 | 871 | 922 | 964 | 1,069 | 1,086 | 1,139 | 1,214 |

(a) Mae cymorth canolog Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys y grant cynnal refeniw, incwm o'r trethi annomestig wedi'i ailddosbarthu, cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor (1999-2000 a 2000-01), grant trosiannol (2001-02 a 2002-03) a grant amddifadedd a grant cymell perfformiad (2003-04 i 2006-07). Nid yw'n cynnwys cyllid wedi'i neilltuo a ddarparwyd gan y Cynulliad ac adrannau eraill o'r Llywodraeth ganolog ar ffurf grantiau at ddibenion penodol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch y ffordd y mae'n sicrhau bod practisau orthodonteg yn cael cyllid digonol i ateb y galw, a'r ffordd y mae'n monitro'r sefyllfa? (WAQ47649)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Pan gytunwyd ar y contractau gwasanaethau deintyddol cyffredinol a gwasanaethau deintyddol personol newydd, cymerwyd enillion practisau unigol yn y gorffennol i ystyriaeth. Yr oedd angen ystyried y patrymau trin ledled Cymru hefyd. Gosodwyd cyllidebau orthodonteg, fel cyllidebau deintyddol eraill, ar gyfer 2006-07 yn ôl ardaloedd y byrddau iechyd lleol, ar sail y cyfnod cyfeirio—mis Hydref 2004 hyd at fis Medi 2005. Os yw practisau wedi tyfu'n sylweddol ers y cyfnod cyfeirio, sef yr hyn sy'n cael ei honni gan rai practisau orthodonteg, bydd angen i'r BILl benderfynu pa un i ostwng, cynnal neu gynyddu'r lefel o weithgarwch orthodonteg yn unol â'r hyn sy'n fforddiadwy ac anghenion y boblogaeth leol. Gallai BILlau ystyried

defnyddio unrhyw arian twf ar gyfer deintyddiaeth neu arian o bractisau nad ydynt yn ymgymryd â'r contract newydd.

**Catherine Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion prif gyflawniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn etholaeth Llanelli er 2003? (WAQ47652)

**Brian Gibbons:** Un o brif gyflawniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru fu'r gostyngiad mawr mewn amseroedd aros. Ym mis Mawrth 2003, yr oedd 573 o gleifion wedi aros dros 12 mis am driniaeth fel claf mewnol/achos dydd ac yr oedd 1,481 o gleifion wedi aros dros 12 mis am apwyntiad cyntaf fel claf allanol yn ardal Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin. Mae'r ystadegau diweddaraf sydd ar gael am ddiwedd mis Mehefin 2006 yn dangos nad oedd unrhyw gleifion wedi aros dros 12 mis naill ai am driniaeth fel claf mewnol/achos dydd nac am apwyntiad cyntaf fel claf allanol yn yr ymddiriedolaeth.

Yn ddiweddar mae Llanelli wedi elwa wrth i bractis deintyddol newydd agor gan greu 12,000 o leoedd ychwanegol, drwy bartneriaeth â chwmni preifat, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin. Ar 9 Mehefin, dyrannwyd £375,000 ychwanegol i Fwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin er mwyn gwella mynediad at wasanaethau deintyddol ymhellach.

Mae Llanelli wedi elwa ar fuddsoddiad newydd mewn gofal sylfaenol drwy'r contract gwasanaethau meddygol cyffredinol newydd, a gyflwynwyd yn ffurfiol ym mis Ebrill 2004. Mae ystod ac ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael mewn gofal sylfaenol yn yr ardal yn gwella'n barhaus. Ym mis Ebrill 2005, cyfanswm y pwyntiau fframwaith ansawdd a chanlyniadau a sicrhawyd gan bractisau yn sir Gaerfyrddin oedd 937 ar gyfartaledd. Mae hyn yn cynrychioli 89 y cant o'r holl bwyntiau ansawdd sydd ar gael.

Mae uned newydd i ofalu am yr henoed ac i'r henoed bregus eu meddwl wedi agor yn Ysbyty'r Tywysog Philip ac yr ydym hefyd wedi darparu cyfalaf ar gyfer pedwaredd theatr orthopedig yn 2005. Ymysg y datblygiadau a'r gwelliannau gwasanaeth eraill mae:

- y model diwygiedig i wasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip,
- y model diwygiedig i wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau,
- creu timau gofal canolraddol cymunedol yn y dref, ac
- mae dyraniad cyfredol 2006-07 o £224 miliwn i Fwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin yn cynnwys y cyllid Wanless o £3.8 miliwn a dargedwyd tuag at leihau anghydraddoldebau iechyd, a fydd o fudd i rannau o Lanelli.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Catherine Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion prif gyflawniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y portffolio cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio yn etholaeth Llanelli er 2003? (WAQ47650)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Mae Llanelli'n elwa ar nifer o gynlluniau sy'n rhoi ein hagenda cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio ar waith. Mae cynlluniau grant y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol yn gymorth i adfywio Llanelli. Mae cyllid wedi cael ei rwymo i bedair ardal Cymunedau yn Gyntaf ac mae'r gronfa datblygu swyddfeydd post wedi cynorthwyo chwe swyddfa bost. Mae'r bartneriaeth diogelwch cymunedol yn cael effaith ar droseddu ac anhrefn. Mae'r asiantaeth gofal a thrwsio yn helpu pobl hŷn ac anabl i aros yn eu cartrefi.